# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 11.03.08

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd W.Gareth Roberts (Cadeirydd);
Y Cynghorwyr E.M. Jones a W.A.Evans

**Hefyd yn bresennol:** Gareth W. Jones (Uwch Reolwr Gweinyddol a Chyfreithiol), Amlyn ab Iorwerth (Rheolwr Trwyddedu), Heilyn Williams (Swyddog Trwyddedu) a Barbara Owen (Swyddog Pwyllgor).

**Eraill a wahoddwyd i'r Cyfarfod:**

**Yn cynrychioli'r heddlu:** Mr Ian Williams (Cydlynydd Trwyddedu Yr Heddlu); Y Rhingyll Wyn Lane
**Ymgeisydd** :.Miss Angela North (Perchennog yr eiddo) Mr North (tad yr Ymgeisydd)
**Gwrthwynebwyr:** Mr Stuart Eaves (ar ran y Cyngor Cymuned); Mr a Mrs R. Ridley; Mr Mark Graham; Mrs F. James;

## 1. CAIS AM DRWYDDED I SWYDDFA BOST, FAIRBOURNE

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu ar gais Swyddfa'r Post yn Fairbourne, am drwydded i ganiatau gwerthu alcohol. Nodwyd bod gan yr heddlu bryderon ynghylch y cais, a bod nifer o drigolion lleol yn gwrthwynebu.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

i. rhoddwyd cyfle i aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor;
ii. rhoddwyd cyfle i'r ymgeisydd ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor;
iii. gwahoddwyd yr Heddlu i gefnogi eu sylwadau ysgrifenedig a rhoddwyd cyfle i'r ymgeisydd ac aelodau'r is-bwyllgor i ofyn cwestiynau;
iv. gwahoddwyd yr ymgynghorai i gefnogi eu sylwadau
v. rhoddwyd cyfle i'r ymgeisydd ymhelaethu ar ei gais ac i alw ar unrhyw dystion;
vi. gwahoddwyd aelodau'r is-bwyllgor i ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd;
vii. rhoddwyd cyfle i gynrychiolydd y Cyngor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd; a
viii. rhoddwyd cyfle i gynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd grynhoi yr achos.

Wrth gefnogi sylwadau'r Heddlu, adroddodd y Cydlynydd Trwyddedu bod gan yr heddlu bryderon am ganiatau'r drwydded ar sail atal trosedd ac anrhefn ac amddiffyn plant rhag niwed oherwydd y nifer sylweddol o achosion diweddar fu yn yr ardal o yfed dan oed. Ychwanegodd nad oes tystiolaeth o unrhyw drosedd yn deillio o unrhyw weithgaredd yn yr eiddo dan sylw. Nodwyd ar ran y Cyngor Cymuned iddynt dderbyn ymateb gan nifer o drigolion lleol yn datgan eu barn bod un safle yn gwerthu alcohol i'w gario allan yn ddigonol yn y pentref. Cyfeiriwyd at y broblem o ieuenctid yn yfed dan oed gan adael sbwriel ar y traeth ar benwythnos a'r ffaith bod trigolion hŷn y pentref yn amharod i fentro allan fin nos rhag aflonyddwch gan rai sydd wedi bod yn yfed.

Cefnogwyd y sylwadau a gyflwynwyd yn y cais gan yr ymgeisydd a'i chynrychiolydd gan gadarnhau'r pwyntiau canlynol:

- gwneir y cais ar argymhelliad swyddog o'r Cyngor o ganlyniad i gyhuddiad di-sail yn ôl yr ymgeisydd o werthu alcohol heb drwydded

- nid oes bwriad i agor ar y Sul, na chwaith i fod ar agor fin nos, ac eithrio nos Fercher a nos Sadwrn hyd at 19.30
- pwrpas y cais yw arall-gyfeirio er mwyn cadw'r swyddfa bost ar agor

Trafodwyd y cais gan yr Is-bwyllgor o ystyried tystiolaeth yr Heddlu a'r trigolion lleol ac er mwyn glynu at yr egwyddorion canlynol:

a) Rhwystro Trosedd ac Anrhefn;
b) Diogelwch y cyhoedd
c) Rhwystro Niwsans Cyhoeddus
d) Amddiffyn Plant rhag Niwed

Nodwyd y bwriad i hyfforddi staff o oblygiadau'r Ddeddf Trwyddedu ac hefyd i ofyn am dystiolaeth os oes unrhyw amheuaeth bod prynwyr alcohol dan oed, a chroesawyd y bwriadau hyn.

**PENDERFYNWYD: a) caniatau trwydded gwerthu alcohol ac oriau agor i Swyddfa'r Post, Fairbourne yn ystod yr oriau canlynol: 08.30 hyd at 19.30 Dydd Llun hyd at Ddydd Sadwrn**

**b) bod holl staff y Swyddfa Bost i gael hyfforddiant priodol cyn eu bod yn cael gwerthu alcohol**

**c) bod y staff yn gofyn am dystiolaeth oedran unrhyw un sydd yn edrych o dan 21 oed**

Adroddwyd yr anfonir llythyr i bawb o fewn pum diwrnod gwaith yn cadarnhau dyfarniad yr Is-bwyllgor, a hysbyswyd pawb o'r hawl i apelio yn erbyn dyfarniad yr Is-bwyllgor, ac hefyd o'r drefn o wneud cais am adolygu'r drwydded pe cyfyd unrhyw dystiolaeth o weithredu'n groes i'r drwydded.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.15am a daeth i ben am 10.45am